

## Y model STAR

Mae cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiadau yn gofyn am ymatebion lle rydych yn egluro beth wnaethoch mewn sefyllfa a sut gwnaethoch hynny. Wrth ddatblygu eich atebion ymddygiadau, ceisiwch ddefnyddio'r model STAR (Sefyllfa, Tasg, Gweithred, Canlyniad) a all eich helpu i strwythuro'ch ymatebion.

Er enghraifft, gallai cais ofyn y cwestiwn canlynol o ran yr ymddygiad 'Datblygu eich hun ac eraill: "Dywedwch wrthym am amser pan gawsoch rywfaint o adborth datblygiadol gan gydweithiwr a sut gwnaethoch ddelio â hyn."

Mae'r wybodaeth a nodir isod yn dangos sut y gall y model STAR helpu.

### Sefyllfa

Wrth ddatblygu eich ateb y peth cyntaf y dylech ei ystyried yw'r sefyllfa lle digwyddodd yr enghraifft hon. Meddyliwch am: beth oedd y sefyllfa? Ble oeddech? Gyda phwy oeddech? A pham roedd y sefyllfa hon wedi digwydd? Ceisiwch sicrhau eich bod yn cadw'ch atebion mor gryno ag y gallwch, dim ond trosolwg o'r sefyllfa y mae angen i chi ei ddarparu.

Ymateb enghreifftiol yw: "Roeddwn yn gweithio ar brosiect gyda chydweithiwr o fy nhîm uniongyrchol. Roedd y prosiect yn ychwanegol at fy rôl arferol. Gofynnwyd i mi ddod â Gwybodaeth Arbenigol ar Faterion Pwnc ar broses benodol i'r prosiect gan ei fod yn un wnes i helpu i greu ychydig flynyddoedd yn ôl. "

### Tasg

Nesaf, ymhelaethwch ar eich ateb trwy esbonio'r dasg y bu'n rhaid i chi ei chwblhau a pham roedd yn rhaid i chi ei chwblhau. Fel o'r blaen, ceisiwch sicrhau eich bod yn cadw'ch atebion mor gryno ag y gallwch, dim ond trosolwg o'r dasg sydd ei angen arnoch.

Ymateb enghreifftiol yw: "Gofynnais am ychydig o adborth gan fy nghydweithiwr yn dilyn trafodaeth frwd yn ystod cyfarfod, am y ffordd orau i symud elfen o'r prosiect yn ei blaen. Nid oeddwn am i'r berthynas rhyngom fod yn anodd. Gwnaeth fy nghydweithiwr roi ychydig o adborth i mi, pan oeddem mewn cyfarfod, fy mod yn torri ar ei thraws tra roedd yn siarad ac roedd yn teimlo bod hyn yn eithaf rhwystredig gan nad oedd yn gallu dweud yr hyn roedd am ei ddweud. "

### Gweithred

Ysgrifennwch yn eich ateb yr hyn a wnaethoch i ddatrys y sefyllfa. Efallai bod tîm ohonoch wedi gweithio ar hyn, ond mae angen ichi nodi'n benodol yr hyn a wnaethoch. Dylech osgoi defnyddio gwnaethom ni gan na fydd y recriwtiwr yn gwybod ai chi neu dîm a weithredodd ar y sefyllfa.

Ymateb enghreifftiol yw: "Roeddwn yn synnu clywed yr adborth hwn gan nad oeddwn erioed wedi sylwi i mi wneud hyn o'r blaen, felly yn y cyfarfod nesaf roeddwn yn ymwybodol i sicrhau fy mod yn gadael i bawb orffen yr hyn yr oeddent yn ei ddweud cyn i mi siarad."

### Canlyniad

Esboniwch beth oedd canlyniadau'r camau a gymerwyd gennych. Mae'n ddefnyddiol meddwl am: pa ganlyniadau a gynhyrchodd y gweithredoedd? A oedd yn ganlyniad llwyddiannus?

Un enghraifft yw: "Fe wnes i ddarganfod fy mod wedi gwranddo'n fwy gofalus ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud, gan nad oeddwn i hefyd yn ceisio cyfleu fy mhwynt ar yr amser anghywir.

Dyweddod fy nghydweithiwr ei bod wedi sylwi ar wahaniaeth a'i bod yn fy edmygu am ystyried yr adborth. "

## **Y model WHO**

Mae model WHO yn ddull arall y gallwch ei ddefnyddio i strwythuro'ch ymateb i gwestiwn sy'n seiliedig ar ymddygiadau. Gan ddefnyddio'r un cwestiwn ac ymddygiad â'r enghraifft enghreifftiol STAR - "Dyweddod wrthym am amser pan gawsoch rywfaint o adborth datblygiadol gan gydweithiwr a sut y gwnaethoch ddelio â hyn" - dyma sut y gellir strwythuro'r ateb drwy ddefnyddio WHO (Beth, Sut, Canlyniad ).

### **Beth**

Beth wnaethoch chi. Beth oedd eich rôl bersonol mewn sefyllfa? Dyma ran Tasg eich esboniad felly dim ond trosolwg rydych yn ei ddarparu yma.

Ymateb enghreifftiol yw: "Roeddwn yn gweithio ar brosiect gyda chydweithiwr o fy nhîm uniongyrchol. Roedd y prosiect yn ychwanegol at fy rôl arferol. Gofynnwyd i mi ddod â gwybodaeth Arbenigol ar Faterion Pwnc ar broses benodol i'r prosiect gan ei fod yn un wnes i helpu i greu ychydig flynyddoedd yn ôl. "

### **Sut**

Sut wnaethoch gyflawni'r canlyniad? Dyma lle mae angen i chi ddarparu manylion a'r dystiolaeth o sut gwnaethoch chi ddelio â'r sefyllfa.

Ymateb enghreifftiol yw: "Gofynnais am ychydig o adborth gan fy nghydweithiwr yn dilyn trafodaeth frwd yn ystod cyfarfod, am y ffordd orau i symud elfen o'r prosiect yn ei blaen. Nid oeddwn am i'r berthynas rhyngom fod yn anodd. Gwnaeth fy nghydweithiwr roi ychydig o adborth i mi, pan oeddem mewn cyfarfod, fy mod yn torri ar ei thraws tra roedd yn siarad ac roedd yn teimlo bod hyn yn eithaf rhwystredig gan nad oedd yn gallu dweud yr hyn roedd am ei ddweud. "

### **Canlyniad**

Beth oedd canlyniad yr hyn a wnaethoch?

Ymateb enghreifftiol yw: "Roeddwn yn synnu clywed yr adborth hwn gan nad oeddwn erioed wedi sylwi fy mod wedi gwneud hyn o'r blaen, felly yn y cyfarfod nesaf roeddwn yn ymwybodol i sicrhau fy mod yn gadael i bawb orffen yr hyn yr oeddent yn ei ddweud cyn i mi siarad. Gwelais fy mod wedi gwrando yn fwy gofalus i'r hyn a oedd yn cael ei ddweud gan nad oeddwn hefyd yn ceisio cyfleu fy mhwynt ar yr amser anghywir. Dywedodd fy nghydweithiwr ei bod wedi sylwi ar wahaniaeth a'i bod yn fy edmygu am ystyried yr adborth. "